

THICKENS, JOHN (1865 - 1952), gweinidog (MC), hanesydd ac awdur

Enw: John Thickens
Dyddiad geni: 1865
Dyddiad marw: 1952
Priod: Cecilia Thickens (née Evans)
Rhiant: Sarah Thickens
Rhiant: David Thickens
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog (MC), hanesydd ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 9 Mawrth 1865 yn Aber-nant-cwta, Cwmystwyth, Ceredigion, mab i David a Sarah Thickens. Bu farw'i dad pan oedd yn ieuanc, a symudodd y fam a'i theulu i'r Pentre, Cwm Rhondda, ac yno, yn eglwys Nasareth, y dechreuodd bregethu. Addysgwyd ef ar gyfer y weinidogaeth yng Ngholeg Trefeca. Ordeiniwyd ef yn 1894, a'r un flwyddyn priododd Cecilia Evans o Ddowlais (chwaer Syr David W. Evans); ganwyd iddynt bump o ferched. Bu'n gweinidogaethu yn Libanus, Dowlais (1892-94) a'r Tabernacl, Aberaeron (1894-1907). Yno dechreuodd gyfathrachu â'i ewythr, brawd ei fam, [Joseph Jenkins](#), (1859-1929, a oedd yn weinidog yn y Ceinewydd; ffrwyth y gwmniaeth honno oedd y cynadleddau yng ngodre Ceredigion a fu'n gychwyniad i Ddiwygiad 1904-05. Symudodd i Lundain yn 1907 i fugeilio eglwys Willesden Green, ac yno y bu nes iddo ymddeol yn 1945. Bu'n treiglo o le i le wedyn - Aberaeron, Castellnedd, Llanwrtyd - gan luestu o'r diwedd yn Leamington Spa. Bu farw yno 29 Tachwedd 1952; hebryngwyd ei lwch o Amlogfa Caergrawnt i fynwent Hen Fynyw ger Aberaeron.

Yr oedd yn bregethwr nodedig yn nyddiau'i nerth, a châi oedfeun eirias ar adegau. Cyfrinydd ydoedd wrth natur, ac er cymaint oedd ei ddi-ddordeb mewn diwinyddiaeth, hanes ac emynyddiaeth, y cyfrinwyr oedd ei hoff fyfyrddod. Bu'n wr amlwg ym mywyd ei Gyfundeb; bu'n llywydd Sasiwn y De (1938), ac yn llywydd y Gymanfa Gyffredinol (1945). Cyhoeddodd esboniad ar Lyfr yr Actau yn 1925. Traddododd y Ddarlith Davies (1934), ac fe'i cyhoeddwyd yn gyfrol swmpus yn 1938 dan y teitl *Howel Harris yn Llundain*. Trwythodd ei hun yn hanes ac ethos Methodistiaeth Galffinaidd Cymru; ef oedd cadeirydd Pwyllgor Hanes y Cyfundeb (1939-52), a chyfrannodd lawer i Gylchgrawn y Gymdeithas Hanes. Ceir ei ysgrifau craff ar y 'tadau' Methodistaidd yn y llyfryn hardd a gyhoeddodd Henaduriaeth Llundain yn 1935 i ddathlu deucanmlwyddiant y Diwygiad Methodistiaidd. Bu'n olygydd *Y Drysorfa* (1929-33), ac ysgrifennodd lawer i'r cylchgrawn hwnnw yn ogystal ag i'r *Traethodydd* a'r *Goleuad*. Yr oedd ganddo reddf a thrylwyrdd y gwir hanesydd; mynnai fynd i lygad y ffynnon bob amser; ei duedd oedd rhedeg ar ôl ambell ysgyfarnog, a hynny efallai yw gwendid ei Ddarlith Davies. Yr oedd ei arddull bedantig a gor-ramadegol hefyd yn faen tramgwydd i lawer o'i edmygwyr. Bu'n aelod o bwyllgor *Llyfr emynau'r Methodistiaid* (1927), a chwilotodd lawer ar hanes yr emynwyr a'u cynhyrchion. Ef a baratôdd y llawlyfr poblogaidd ar y casgliad uchod, *Emynau a'u hawduriaid* (1947; 1961, arg. newydd 'wedi ei ddiwygio, gydag ychwanegiadau', gan [Gomer M. Roberts](#)). Arfaethasai gyhoeddi cofiant i'w ewythr hyglod, [Joseph Jenkins](#), a chyhoeddwyd yr hyn a baratôdd yn *Y Drysorfa*, 1961-63.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Trysorfa y Plant, 1938, 68-71

Y Drysorfa, 1938, 90-4, ac Ebrill 1953

Y Goleuad, 31 Rhagfyr 1952

Blwyddiadur y Methodistiaid Calffinaidd, 1954, 232-33

S. Evans a G. M. Roberts (gol.), *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904-1905* (Caernarfon 1954) (1954), 25ff.

William Morris (gol.), *Deg o Enwogion* (1965) (1965), 27-34

gwybodaeth gan y Parch. D. Lewis Evans

adnabyddiaeth bersonol

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [101525217](#)

Wikidata: [Q20746817](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

